PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 22 MEHEFIN 2023

PRESENNOL Cynghorydd W.T. Evans (Cadeirydd) **(Yn y Siambr)**

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	P. Cooper	J.K. Howell
M.J.A. Lewis	B.D.J. Phillips	E. Skinner	R. Sparks
G.B. Thomas	M. Thomas	D.E. Williams	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	M. Donoghue	N. Evans	J.P. Jenkins
A.C. Jones	A. Leyshon		

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth);
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau.

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 10.00 yb - 12.10 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/05353	**Ffurfio llwybr cyfunol newydd i gerddwyr a beicwyr rhwng Ysgol Bro Dinefwr, Ffair-fach a Nantgaredig, yn ogystal â gwaith peirianneg a thirweddu cysylltiedig (Llwybr Dyffryn Tywi – Cam Dwyreiniol), tir ar hyd llwybr yr hen reilffordd gyda mân wyriadau rhwng Nantgaredig a Ffair-fach, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin;**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais cynllunio canlynol, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i wrthod, am y rhesymau a nodir isod ac yn amodol ar gwblhau cytundeb Adran 106 i reoli gwerthiant o'r eiddo yn y dyfodol fel tai fforddiadwy a gosod amodau tirlunio priodol:-

(1) Sail anghenion lleol;
(2) Ystyriwyd bod lleoliad a gosodiad yr annedd arfaethedig yn briodol.

PL/05786	**Adeiladu annedd sy'n gymwys o dan y polisi anghenion lleol, Plas Newydd, Llan-gain, Caerfyrddin, SA33 5AY;** Cafwyd sylwadau gan yr aelod lleol i gefnogi'r cais ar sail Anghenion Lleol, y ffaith bod ôl troed yr annedd wedi ei leihau ers y cais gwreiddiol a bod hyn yn cael ei ystyried yn dderbyniol, ac y byddai sgrinio addas yn lliniaru pryderon ynghylch y safle. Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd.

3.3 PENDERFYNWYD nodi bod y ceisiadau canlynol yr agenda wedi cael eu tynnu yn ôl:

PL/05042	**Cais am gyfanswm o 4 pod glampio gyda mannau eistedd preifat o flaen yr unedau, ynghyd â chaban gwasanaethau, man parcio a throi, amwynderau ailgylchu/gwastraff a storfa feiciau ddiogel. Mae digon o le rhwng y podiau ar draws y safle. Hefyd, bwriedir gosod llwybrau troed cysylltiedig a gwneud gwaith tirweddu ar y safle. Cyfeiriwch at y cynllun safle arfaethedig am fanylion pellach. Y math o bodiau glampio fydd podiau Glasgwym a ddarperir gan Quality Pods Wales. Mae'r llain wedi'i lleoli ger yr A483, yn agos i Gil-y-cwm a Llanymddyfri. Bydd y safle glampio arfaethedig yn darparu llety syml a disylw yng nghefn gwlad ar gyfer twristiaid sy'n ymweld ag atyniadau'r ardaloedd hyn ar seibiannau byr a gwyliau penwythnos, a bwriedir iddo ddarparu llety drwy gydol y flwyddyn, Brynllan, Cil-y-cwm, Llanymddyfri, SA20 0SY;**
PL/05354	**Cadw annedd sengl, Pantbach, Heol Treventy, Cross Hands, Llanelli, SA14 6TE.**

4. APELIADAU

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn manylu ar y wybodaeth ganlynol yn ymwneud ag apeliadau cynllunio:-

- Disgrifiad o'r camau apelio;
- Rôl a chyfrifoldebau'r partïon;
- Sut i roi sylwadau ar apêl;
- Amserlenni apelio;
- Apeliadau a gyflwynwyd ar 12/06/2023;
- Apeliadau ar y gweill ar 12/06/2023;
- Penderfynwyd ar yr apeliadau rhwng 01/04/2023 a 12/06/2023.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. COFNODION - 25AIN MAI 2023

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi'i gynnal ar 25 Mai, 2023 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf